Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Y Cydbwyllgor Archwilio** |
| **Canolfan:** | **Pencadlys yr Heddlu** |
| **Dyddiad:** | **25 Gorffennaf 2017** |
| **Amser:** | **10:00 – 12:25** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | **Mr Alasdair Kenwright (AMSK)**<br>**Mr Malcolm MacDonald(MM)**<br>**Mr Andre Morgan (AM)** |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff (PS)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Cyllid (PSC)<br>Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC)<br>Mr John Herniman, Cyfarwyddwr Ymgysylltu, Swyddfa Archwilio Cymru<br>Mr Jason Garcia, Rheolwr Archwilio, Swyddfa Archwilio Cymru (JG)<br>Mr Jonathan Maddock, Rheolwr Cleientiaid, TIAA (JM)<br>Mrs Sarah Welsby, Cyfrifydd Cyllid<br>Mrs Karen Davies, Cyfrifydd Cyllid<br>Mrs Claire Bryant, Swyddog Cydymffurfio (eitem 15 ar yr agenda'n unig)<br>Mr Andrew Edwards, Cyfarwyddwr Cynorthwyol yr Uned Cymorth Busnes (eitem 16 ar yr agenda yn unig)<br>Mrs Anne Williams, Swyddog Cymorth Busnes |
| **Ymddiheuriadau:** | Mr Gawain Evans, Cadeirydd, Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Mr Mark Collins, Prif Gwnstabl, Ms Vicky Davies, Cyfarwyddwr Archwilio TIAA. |
| **Datganiadau o fuddiannau:** | Dim |

| CRYNODEB GWEITHREDU CYFARFOD 29 Mawrth 2017 | | |
|---|---|---|
| Rhif Gweithredu | Crynodeb Gweithredu | Cynnydd |
| **A94 2016/17** | **TIAA i adrodd am waith cymharol gyda Heddluoedd eraill Cymru i bennu'r arferion gorau.** | **Cwblhawyd** |
| **A95 2016/17** | **VD i rannu Porth Cleientiaid TIAA a'r Aelodau.** | **Cwblhawyd** |
| **A96 2016/17** | **Bod diweddariad ar daliadau Credydwyr yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf.** | **Cwblhawyd** |
| **A97 2016/17** | **Bod y PSC yn trafod ac yn cadarnhau'r dull mwyaf priodol o brisio gwahanol ddosbarthiadau asedau yn y cyfrifon gyda Swyddfa Archwilio Cymru.** | **Cwblhawyd** |
| **A98 2016/17** | **VD i ddarparu geiriad drafft y farn archwilio i'r Heddlu wrth baratoi Datganiad Cyfrifon Drafft.** | **Cwblhawyd** |

| | | |
|---|---|---|
| **A98 2016/17** | **Yn dilyn newidiadau, bod yr adroddiad am Ddatganiadau Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2016/17 yn cael ei ailgyhoeddi am sylwadau a newidiadau pellach.** | **Cwblhawyd** |
| **A98 2016/17** | **Oherwydd prinder amser, mewn cysylltiad ag eitem 5 ar yr agenda, gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau gylchredeg unrhyw sylwadau mewn perthynas ag Adroddiad Blynyddol drafft y Cydbwyllgor Archwilio cyn y cyfarfod nesaf.** | |
| **A98 2016/17** | **Mewn cysylltiad ag eitem 4 ar yr agenda, Cylch Gwaith y Cydbwyllgor Archwilio, gofynnwyd i'r Aelodau gylchredeg unrhyw sylwadau cyn y cyfarfod nesaf.** | **Cwblhawyd** |
| **A98 2016/17** | **Yr Aelodau i gwrdd cyn y cyfarfod nesaf i drafod a chytuno ar eitemau sydd heb eu penderfynu mewn cysylltiad â'r Adroddiad Blynyddol a'r Cylch Gwaith.** | **Cwblhawyd** |
| **A98 2016/17** | **Y PS i gylchredeg i'r aelodau gamau gweithredu sy'n codi o ddiwrnod hyfforddi'r Cydbwyllgor Archwilio.** | **Cwblhawyd** |

**Croeso**

**A1 2017/18 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 29 Mawrth 2017 a Materion yn Codi**

Derbyniodd MM y rôl arweiniol ar faterion ACEM gan gytuno i fynychu cyfarfodydd mewnol priodol.

Roedd mynediad wedi'i roi i ddau weinyddwr yn yr Heddlu i system Porth Cleientiaid TIAA. Gallai unrhyw gais i gyrchu'r system gael ei wneud drwy'r gweinyddwyr.

**Penderfyniad: Bod MM yn arwain ar faterion ACEM ac yn cael ei wahodd i fynychu cyfarfodydd priodol.**

**Gweithredu: Y PSC i anfon briffiau cleientiaid TIAA yn electronig at yr Aelodau.**

**Penderfyniad: Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 29 Mawrth 2017 fel cofnod cywir.**

**A2 2017/18 Cylch Gwaith (CG) ar gyfer y Cydbwyllgor Archwilio**

Yn y gorffennol roedd yr Aelodau wedi cyfarfod i drafod y CG ac ar ôl derbyn adborth cafodd y CG drafft ei gyflwyno i'w gadarnhau'n ffurfiol. Roedd yr Aelodau'n fodlon ei gymeradwyo.

Diolchodd yr Aelodau i'r PS am y gwaith paratoi a chytunwyd i adolygu'r CG yn flynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r diben.

**Penderfyniad: Cymeradwyo'r Cylch Gwaith ar gyfer y Cydbwyllgor Archwilio a'i adolygu'n flynyddol o hyn allan.**

**A3 2017/18 Adroddiad Blynyddol drafft y Cydbwyllgor Archwilio 2016/17**

Roedd yr Aelodau o'r farn fod yr Adroddiad Blynyddol yn cynnig mwy o wybodaeth na'r blynyddoedd blaenorol.

**Penderfyniad: Cymeradwywyd yr Adroddiad Blynyddol 2016/17 i'w gyhoeddi.**

**A4 2017/18 Llythyr Sylwadau 2016/17 Drafft**

**a) Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu**

Amlinellodd JH y weithdrefn archwilio fel rhan o gau'r cyfrifon. Roedd mynediad llawn wedi'i roi i wybodaeth gydag un camosodiad heb ei gywiro wedi'i amlygu. Rhoddodd JH esboniad manwl i'r Aelodau am y camosodiad heb ei gywiro ac am benderfyniad rheoli i beidio â newid y cyfrifon oherwydd ei berthnasedd nad oedd yn effeithio ar y farn ddiamod ar y cyfrifon.

Gofynnodd MM a fyddai unrhyw anawsterau ac effaith yn sgil y camosodiad heb ei gywiro mewn perthynas â chyfrifon y flwyddyn nesaf. Mewn ymateb, bodlonodd JH yr Aelodau ynglŷn â'r sefyllfa gan roi eglurhad iddynt ynghylch eu cyfrifoldebau wrth gymeradwyo'r Cyfrifon a'r Llythyr Sylwadau i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl i'w llofnodi.

**Penderfyniad: Cymeradwywyd Llythyr Sylwadau drafft y Comisiynydd Heddlu a Throseddu i'w lofnodi gan y llofnodwyr priodol.**

**b) Y Prif Gwnstabl**

Roedd cynnwys y Llythyr yn debyg i Lythyr y Comisiynydd heblaw am y camosodiad heb ei gywiro.

Nid oedd unrhyw gwestiynau pellach mewn cysylltiad â Llythyr Sylwadau'r Prif Gwnstabl.

**Penderfyniad: Cymeradwywyd Llythyr Sylwadau drafft y Prif Gwnstabl i'w lofnodi gan y llofnodwyr priodol.**

**A5 2017/18 Ymateb y rheolwyr i'r ymholiadau archwilio ynghylch trefniadau ar gyfer atal a datrys twyll.**

Amlinellodd JH y gofynion yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio gan esbonio'n fyr y meysydd llywodraethu lle'r oedd barn yn cael ei cheisio ac ystyriaeth yn cael ei rhoi i faterion. Holodd MM ynghylch rhai agweddau ar y cynnwys gan ofyn a oedd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion eraill. Fe wnaeth AM awgrym ynglŷn â'r cynllun i hwyluso ei ddarllen.

**Penderfyniad: Cytunodd yr Aelodau ag ymateb y rheolwyr o ran yr ymholiadau archwilio i'r rheini y mae llywodraethu a rheoli wedi'u hymddiried iddynt.**

**A6 2017/18 Adroddiad Datganiadau Ariannol a Llythyr Rheoli 2016/17 Swyddfa Archwilio Cymru**

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno barn ynghylch a yw datganiadau ariannol y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl Dyfed Powys yn rhoi golwg gywir a theg ar eu sefyllfa ariannol 31 Mawrth 2017 ac ar eu hincwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn.

Adlewyrchiad cadarnhaol iawn oedd amseriad yr adroddiad o'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn beilot i gyrraedd y dyddiadau cau cynharach ar gyfer cau'r cyfrifon. Roedd y peilot yn amlygu prosesau dysgu lle gall yr Heddlu a Swyddfa Archwilio Cymru edrych ar feysydd i wella ac unrhyw newid angenrheidiol yn y broses. Roedd adolygiad cynnar o'r cyfrifon drafft wedi llwyddo i gynnig cyfle i amlygu a mynd i'r afael ag unrhyw faterion yn gynnar.

Roedd JH wedi cyfeirio ynghynt at y camosodiad heb ei gywiro gan gyhoeddi barn ddiamod yn ddarostyngedig i'r cyfrifon i'w cymeradwyo.

Ar ran y Cydbwyllgor Archwilio dymunai'r Cadeirydd gofnodi eu diolchgarwch i'r Tîm Cyllid am eu camp sylweddol wrth gwblhau'r cyfrifon yn gynnar. Yn yr un modd, bu Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio'n canu clodydd Swyddfa Archwilio Cymru am eu gwaith wrth gynorthwyo â chau'n gynnar.

Cyfeiriodd yr Aelodau at fân newidiadau oedd eu hangen yn y cyfrifon.

Yn Atodiad 5, cwestiynodd MM beidio â datgelu dau newid yn y naratif a wnaethpwyd i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol o gofio bod gan yr Aelodau gyfrifoldeb i sicrhau cywirdeb y Datganiad. Mewn ymateb, sicrhawyd yr Aelodau gan JG drwy amlinellu'r mân newidiadau dan sylw.

**Penderfyniad: Nodi Adroddiad y Datganiadau Ariannol a'r Llythyr Rheoli.**

**A7 2017/18 Datganiad Cyfrifon Blynyddol drafft ar gyfer 2016/17**

**a) Cyfrifon Grŵp**

Cyflwynodd y PSC y Cyfrifon Grŵp gan gyfeirio at yr adroddiad naratif defnyddiol a amlygai'r materion pwysicaf y soniwyd amdanynt yn y cyfrifon ynghyd ag esboniad o effaith bosibl yr hinsawdd economaidd bresennol ar y gwasanaethau a ddarperir gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl Dyfed Powys.

Roedd yr Aelodau wedi cyfarfod mewn Seminar Cyllid ynghynt i drafod y cyfrifon drafft yn eithaf manwl. Dymunai'r Aelodau gofnodi bod y Seminar Cyllid wedi darparu cryn dipyn o wybodaeth ac yn rhan hynod werthfawr o'r broses a fyddai, gobeithio, yn cael ei hailadrodd yn y blynyddoedd a ddaw. Hefyd teimlai'r Aelodau fod yr Adroddiad Naratif wedi'i ysgrifennu'n dda a'i eirio'n glir.

Mewn cysylltiad â thudalen 9 yr adroddiad, gofynnodd AM am ddiweddariadau am yr oedi wrth uwchraddio TG ac wrth gofrestru adeiladau gyda'r Gofrestrfa Dir. Cyfeiriodd y PSC at broblemau blaenorol gyda'r Gofrestrfa Dir gan esbonio'r sefyllfa hyd yn hyn.

Eglurodd y CC mai oedi o safbwynt gwerth am arian oedd yr oedi wrth gyflwyno llawer o brosiectau TG a strategol eraill yn hytrach nag oedi mewn cysylltiad â rheoli prosiectau.

Mewn perthynas â'r Gofrestrfa Dir, cynigiodd yr Aelodau gymorth a allai gefnogi'r broses yn y dyfodol.

**Penderfyniad: Cymeradwyo Datganiad Cyfrifon (Cyfrifon Grŵp) 2016/17 drafft i'w lofnodi.**

**b) Cyfrifon y Prif Gwnstabl**

Cyfeiriodd y CC at y drafodaeth werthfawr a chadarnhaol a gafwyd yn y Seminar Cyllid ar y cyfrifon. Roedd y rhan fwyaf o'r prif bwyntiau yn yr Adroddiad Naratif wedi cael eu trafod a chroesawodd y CC unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r cyfrifon drafft.

Canmolodd AM y manylion defnyddiol yn Egwyddorion Craidd Llywodraethu Da.

**Penderfyniad: Cymeradwyo Datganiad Cyfrifon (Endid Unigol) drafft y Prif Gwnstabl ar gyfer 2016/17 i'w lofnodi.**

**A8 2017/18 Adroddiad Archwilio Mewnol 2016/17**

Bu'r adroddiad archwilio mewnol blynyddol yn crynhoi canlyniadau adolygiadau a gynhaliwyd o fframwaith llywodraethu a rheoli risg y sefydliad. Bwriad yr adroddiad oedd ategu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Bu JM yn crynhoi cynnwys yr adroddiad gan amlygu Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol lle'r oedd digon o waith archwilio mewnol wedi cael ei wneud i ganiatáu casgliad rhesymol o ran digonolrwydd ac effeithiolrwydd prosesau rheoli risg a llywodraethu Heddlu Dyfed Powys. Hefyd, barn bod gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys brosesau rheoli a llywodraethu digonol ac effeithiol i reoli cyflawni eu hamcanion.

Cwestiynodd MM gynnwys y frawddeg gyntaf yn y Farn Flynyddol gan ofyn a ddylid cyfeirio hefyd at brosesau rheoli risg a llywodraethu'r Comisiynydd?

Cafwyd trafodaeth a oedd y datganiad hwn yn cael ei gynnwys mewn unrhyw ddogfennau eraill yr oedd yn rhaid edrych arnynt yn agosach.

Cytunwyd na fyddai unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud i'r Adroddiad Archwilio Mewnol eleni ond cytunodd JM i'w ddwyn i sylw Vicky Davies.

**Penderfyniad: Nodi adroddiad Archwilio Mewnol 2016/17.**

**Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol a chytunodd y Cadeirydd i drafod eitemau sydd wedi'u heithrio rhag y cyhoedd.**

**A9 2017/18 Adroddiad cymharol Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol WEDI'I EITHRIO**

Coladiad oedd y ddogfen o'r Cynlluniau Strategol a Blynyddol Archwilio Mewnol i bedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl Cymru.

Y bwriad oedd darparu data a gwybodaeth gymharol lle bo'n briodol a chynnal adolygiadau ar y cyd lle bo'n fuddiol. Roedd yr adroddiad i ddarparu gwybodaeth am y gwaith arfaethedig ym mhob un o'r pedwar sefydliad ac i gael ei ddefnyddio fel man cychwyn i drafod adolygiadau oedd yn fuddiol iddynt i gyd.

Gwerthfawrogai'r Aelodau a'r Swyddogion y cyfle i gael golwg ar yr adroddiad cymharol gan ofyn cwestiynau priodol a gwneud sylwadau perthnasol ar rai agweddau ar y cynnwys.

**Penderfyniad: Nodi'r adroddiad a chyfeirio ato ar adeg briodol wrth adolygu'r rhaglen Archwilio Mewnol ar gyfer y flwyddyn ddilynol.**

**A10 2017/18 Adroddiad cynnydd yr Archwilwyr Mewnol (SICA) 2017/18**

Roedd y crynodeb yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Archwilio am gynnydd gwaith mewnol Heddlu Dyfed Powys 13 Gorffennaf 2017. Cynigiwyd un newid i'r Cynllun Blynyddol. Roedd yr Uwch-reolwyr wedi gofyn am adolygiad o gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Roedd hwn i gymryd lle'r adolygiad o Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd gan nad oedd y sefydliad wedi mabwysiadu'n ffurfiol na dechrau gwaith ar y fframwaith sicrwydd hyd yn hyn.

Dangosodd diweddariad ynglŷn â'r ddau argymhelliad Blaenoriaeth 1 fod y rhan fwyaf o daliadau dyblyg wedi'u hadennill. Roedd yr argymhelliad i roi gwybod i froceriaid yswiriant am safle mast Aberystwyth wedi'i roi ar waith.

Mewn ymateb i gwestiwn, darparodd JM ddiweddariad i'r Aelodau am Ddiogelwch y Rhwydwaith TGCh.

Amlygodd yr Aelodau yr oedi wrth dderbyn adroddiad drafft am drwyddedu drylliau a amserlennwyd ar gyfer 12 Mehefin. Byddai nodyn atgoffa'n cael ei anfon i dynnu sylw at yr adroddiad sydd eto i ddod a phenderfyniad y Pwyllgor i wahodd staff priodol i gyfarfod am esboniad.

Mewn cysylltiad â newid arfaethedig i'r Cynllun Blynyddol, amlygodd y PSC fod adolygiad o gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg wedi'i ychwanegu a'r gofyn bod y pwyllgor yn cymeradwyo unrhyw newid o'r fath i'r Cynllun gwreiddiol y cytunwyd arno. Nodwyd na fyddai'r newid hwn yn effeithio ar gyfanswm y diwrnodau o fewn y Cynllun.

Mewn cysylltiad ag argaeledd adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru, gofynnodd MM a oedd unrhyw fecanweithiau yn eu lle ar gyfer y broses hon. Cadarnhaodd JM y byddai unrhyw adroddiadau perthnasol yn cael eu dwyn at sylw'r Aelodau.

**Penderfyniad: Cytunodd yr Aelodau ar newid ffurfiol yn y Cynllun Blynyddol i gynnwys adolygiad o gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg**

**A11 2017/18 Adolygiadau'r Archwilwyr Mewnol**

**a) Trefniadau Fetio**

Bu'r adolygiad yn asesu cydymffurfiaeth â'r polisi fetio mewnol. Dyfarnodd yr adolygiad sicrwydd rhesymol gyda 3 argymhelliad Blaenoriaeth 2, 3 argymhelliad arferol Blaenoriaeth 3 a thri argymhelliad gweithredol.

Cyfeiriodd JM at yr argymhellion Blaenoriaeth 2 oedd yn amlygu ôl-groniad ymhlith y gweithlu nad ydynt yn meddu ar gliriad diogelwch cyfredol a heb fod yr un broses yn ei lle i reoli'n effeithiol bersonau y mae eu Fetio Personél nad ydynt yn Heddlu wedi dod i ben ac angen ei adnewyddu. Nodwyd y byddai cynnydd mewn staff FTE i ddelio â'r ôl-groniad yma o ran y llwyth gwaith fetio'n helpu i'w glirio erbyn y dyddiad gweithredu targed sef Ionawr 2019. Nid oedd proses yn ei lle i hysbysu noddwyr ymlaen llaw am gliriadau oedd i fod i ddod i ben a phennwyd dyddiad gweithredu targed erbyn diwedd mis Rhagfyr 2017.

Bu JM yn crynhoi'n fras argymhelliad Blaenoriaeth 3 i edrych ar y dewisiadau sydd ar gael i wella'r Gronfa Ddata Fetio bresennol a chyflwyno cynllun busnes ar ôl ystyried yr holl ddewisiadau. Fel mesuriad o berfformiad, byddai nifer y cliriadau diogelwch oedd wedi dod i ben neu nad oeddent yn gyfredol oedd heb eu prosesu yn cael eu riportio mewn Adroddiadau Perfformiad ym Mwrdd Atebolrwydd yr Heddlu er mwyn darparu sicrwydd o ran cydymffurfiaeth â'r Polisi Fetio Cenedlaethol.

Mewn cysylltiad â'r ôl-groniad o ran cliriadau fetio, cwestiynodd MM y dyddiad gweithredu targed pell sef mis Ionawr 2019 gan ofyn a oedd cymhariaeth â Heddluoedd eraill ar gael. Cyfeiriodd JM at gymhariaeth â dau Heddlu arall gan sôn mai dyddiad cwblhau targed a bennwyd gan ACEM oedd mis Ionawr 2019 ond disgwylid y byddai'r

gwaith yn cael ei gwblhau cyn y dyddiad hwnnw. Amlygwyd hyn gan MM fel risg i'r sefydliad a'r rheidrwydd i'w chynnwys ar y gofrestr risgiau.

Dilynwyd hyn gan drafodaeth ar y cynnydd staffio yn yr Uned Fetio gyda chynlluniau i flaenoriaethu trefn prosesu'r ôl-groniad er mwyn lliniaru unrhyw risg.

Ystyriai'r Aelodau mai peth doeth fyddai derbyn adroddiadau cynnydd yn y man.

**Penderfyniad: Darparu adroddiad cynnydd i'r Aelodau am yr ôl-groniad fetio mewn cyfarfod yn y dyfodol.**

**b) Llywodraethu – Trefniadau Cydweithredu**

Bu'r adolygiad yn ystyried effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu ar gyfer rheoli prosiectau cydweithredol yn fewnol. Dyfarnodd yr adolygiad sicrwydd rhesymol gydag un argymhelliad Blaenoriaeth 1 ac un argymhelliad Blaenoriaeth 3.

Roedd yr Heddlu wrthi'n gweithredu strwythur llywodraethu newydd oedd yn ei fabandod ar adeg yr adolygiad.

Roedd Bwrdd Cydweithredu i'r Heddlu wedi'i sefydlu fel rhan o'r strwythur cyfarfodydd newydd. Roedd y Bwrdd i adrodd wrth Fwrdd y Dyfodol oedd eto i gyfarfod.

Yn ychwanegol at y Cynllun Heddlu a Throseddu a'r Cynllun Darparu yn sgil hynny, roedd Cyd-strategaeth Gydweithredu wedi'i datblygu i nodi'r egwyddorion i'r Heddlu wrth gyfranogi o gyfleoedd cydweithredol.

Pwysleisiodd MM fanteision ei bresenoldeb yng nghyfarfodydd y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol gan ofyn bod copïau o'r strwythur llywodraethu newydd yn cael eu dosbarthu i aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio er gwybodaeth pan fyddant yn barod.

Gan mai'r un archwilwyr mewnol sydd gan bob Heddlu yng Nghymru, tynnodd y PS sylw at werth edrych ar waith archwilio mewnol posibl ar drefniadau cydweithredu ynghyd â chynnig gan y Pwyllgor hwn i godi'r mater yma yn un o gyfarfodydd Grŵp Plismona Cymru Gyfan yn y dyfodol.

**Gweithredu: Anfon copi o'r strwythur llywodraethu newydd at yr Aelodau pan fydd ar gael.**

**Gweithredu: Cynnwys trafodaeth am drefniadau cydweithredu ar agenda un o gyfarfodydd Grŵp Plismona Cymru Gyfan yn y dyfodol.**

**c) Rheoli AD – Trefniadau Dysgu a Datblygu**

Ystyriodd yr adolygiad y trefniadau ar gyfer penderfynu'r gofynion dysgu a datblygu, y trefniadau monitro ac adrodd wrth Fyrddau. Dyfarnodd yr adolygiad sicrwydd rhesymol gydag un argymhelliad Blaenoriaeth 2 yn amlygu'r angen i'r Adran Ddysgu a Datblygu lunio dogfen Polisi a Gweithdrefnau gyffredinol. Un argymhelliad Blaenoriaeth 3 oedd bod Bwrdd y Bobl ar gyfer Dysgu a Datblygu Strategol yn cwrdd yn chwarterol er mwyn sicrhau monitro perfformiad yn rheolaidd yn erbyn y Cynllun Hyfforddiant Wedi'i Brisio. Roedd y ddau argymhelliad wedi cael eu derbyn. Cafwyd gwelliant sylweddol ers yr adolygiad blaenorol dair blynedd ynghynt.

Soniodd AM am y gorwario ar y gyllideb hyfforddi ac am y mesurau rheoli ar gyfer rheolwyr wrth gymeradwyo ceisiadau am hyfforddiant. Eglurodd y CC y broses a'r craffu sy'n gysylltiedig â'r gyllideb hyfforddi.

**d) Rheoli'r Fflyd – Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw**

Bu'r adolygiad yn ystyried effeithiolrwydd y trefniad ar gyfer rheoli'r fflyd cerbydau a ddefnyddir gan yr Heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Dyfarnodd yr adolygiad sicrwydd rhesymol gyda thri argymhelliad Blaenoriaeth 2, dau argymhelliad Blaenoriaeth 3 a thri argymhelliad gweithredol.

Roedd y Strategaeth Fflyd Cerbydau a'r Strategaeth Cyfnewid Cerbydau wedi cael eu diweddaru ers hynny. Mewn cysylltiad â cherbydau y nodir eu bod yn hwyr o ran cael eu gwasanaethu, roedd system newydd eisoes ar waith i hysbysu staff am y gofyn i wneud hyn. Holodd yr Aelodau ynglŷn â galluoedd Tranman a'r sampl o gerbydau a adolygwyd. Y gobaith oedd y byddai problemau'n deillio o system Tranman yn gwella yn sgil uwchraddio'r system.

**Penderfyniad: Nodi adolygiadau'r Archwilwyr Mewnol.**

**A12 2017/18 Cofrestrau Risg Gorfforaethol yr Heddlu a SCHTh WEDI'U HEITHRIO**

**a) Cofrestr Risg Gorfforaethol yr Heddlu**

Bu'r CC yn crynhoi'r meysydd risg allweddol a nodir yn yr adroddiad.

Calondid i'r Aelodau oedd i ba raddau roedd y meysydd risg yn cael eu rheoli.

Holodd y Cadeirydd yr archwilwyr am y meysydd risg y rhoddwyd sylw iddynt wrth ystyried eu gwaith archwilio. Cadarnhaodd JM fod risg yn cael ei hystyried ym mhob adolygiad ac agwedd ar eu gwaith. Soniodd JG am yr adroddiad hynod fanwl gan awgrymu bod yr Aelodau'n blaenoriaethu rhai risgiau yng nghyfarfodydd y Cydbwyllgor Archwilio drwy raglen dreigl a gwahodd perchenogion risg i fynychu cyfarfodydd er mwyn trafod sut roedd y risg yn cael ei lliniaru.

Cafwyd trafodaeth wedyn a ddylid cynnwys risg fel eitem sefydlog ar agendâu. Teimlai AM ei bod yn werth chweil i'r Aelodau drafod yn fanylach ac roedd yn gwerthfawrogi'r cyfle i gael bwrw golwg dros y gofrestr risg gyfan.

Er mwyn cynorthwyo'r Aelodau wrth wneud penderfyniadau, awgrymodd y PS y dylid cael trafodaeth ar ôl yr eitem ar yr agenda ar 'Brosesau Craffu Ategol'.

**Penderfyniad: Nodi Cofrestr Risg yr Heddlu.**

**b) Cofrestr Risg SCHTh**

Amlygodd CB y prif risgiau sydd wedi'u cynnwys yn y Gofrestr gyda'r prif eitemau'n ymwneud â gwaith craffu a sut mae'r Swyddfa'n cefnogi'r Comisiynydd wrth gyflawni ei holl ddyletswyddau.

**Penderfyniad: Nodi Cofrestr Risg Gorfforaethol SCHTh.**

**A13 2017/18 Mewnbwn ar risg a phrosesau craffu ategol SCHTh**

Bu CB yn cylchredeg dwy ddogfen at sylw'r Aelodau ac yn rhoi cyflwyniad ar brosesau craffu ategol. Roedd y prosesau yn eu babandod a byddent yn esblygu ac yn cael eu hadolygu ym mhen chwe mis.

Cyfeiriodd y PS at newidiadau oedd yn cael eu cyflwyno i sicrhau bod unrhyw graffu a wneir gan y Comisiynydd wedi'i seilio ar risg, â ffocws ac yn ychwanegu gwerth at yr Heddlu.

Roedd cylch gwaith y Bwrdd Plismona a Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu wedi'i addasu i ddefnyddio dull thematig i ymdrin â materion o bwys sylweddol i gynorthwyo'r Comisiynydd gyda'i gyfrifoldebau craffu.

Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau priodol ynglŷn â rhestr wirio Pick & Sand y Ffocws Craffu.

Teimlai'r Aelodau mai datblygiad buddiol oedd hwn gan ofyn am adroddiad cynnydd ym mhen chwe mis.

Wedyn, cafwyd trafodaeth hir am y dull gorau i'r Aelodau ystyried a chraffu ar bob maes risg. Efallai y byddai cyfle yng nghyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Medi ond mynegodd MM ei bryder ynglŷn â'r amser y byddai'n ei gymryd pe bai cyflwyniadau'n cael eu cynnwys fel eitemau ar yr agenda.

Gofynnodd y PS a oedd yr Aelodau am awgrymu maes risg i'w ystyried yn y cyfarfod nesaf. Gofynnodd MM i nodyn atgoffa gael ei anfon at yr Aelodau cyn y cyfarfod nesaf er mwyn dewis maes risg penodol i'w drafod.

Diolchwyd i CB am y cyflwyniad a gadawodd y cyfarfod ar yr adeg hon.

**Gweithredu: Adroddiad am y broses graffu i'w ddarparu i'r Aelodau ym mhen chwe mis.**

**GWEITHREDU: Nodyn atgoffa i'w anfon at yr Aelodau er mwyn pennu maes risg i'w graffu arno yn y cyfarfod nesaf.**

**A14 2017/18 Ystadegau Talu**

Yn dilyn cyflwyniadau, darparodd Andrew Edwards drosolwg byr o'r adroddiad a amlinellodd argymhellion yr adroddiad archwilio mewnol ar gyfer swyddogaeth y Credydwyr yn 2016/17, y gwaith a wnaed i wella meysydd a'r effaith ar yr amser a gymerir i brosesu anfonebau.

Bu'r Aelodau'n gwneud sylwadau gan ofyn cwestiynau perthnasol ynglŷn â meysydd penodol yn yr adroddiad. Wrth ateb cwestiwn ynghylch Debydau Uniongyrchol, cytunodd AE i gael ateb a rhoi adborth i'r Aelodau maes o law. Cyfeiriwyd at y digwyddiad tridiau ar wella busnes a thrafodaeth ar alluoedd y system ABW mewn perthynas ag anfonebau dyblyg. Cynigiodd AE gylchredeg papur busnes y digwyddiad i'r Aelodau i ddangos dyfnder y craffu a wnaed i wella meysydd busnes. Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau gan fanylder yr adroddiad a diolchwyd i AE am ei gyflwyniad.

Gadawodd AE y cyfarfod ar yr adeg hon.

**Penderfyniad: Nodi'r adroddiad am ystadegau talu.**

**A15 2017/18 Cofnodion cyfarfod y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol 12 Mehefin 2017**

Crynhodd y CC rannau o'r Cofnodion gan dynnu sylw at un cywiriad - y Bwrdd Atebolrwydd Plismona i'w newid i Fwrdd Atebolrwydd yr Heddlu.

Cydnabu MM flwyddyn heriol lle cafwyd llawer o newidiadau ynglŷn â chanllawiau newydd gan ddiolch i bawb dan sylw am eu gwaith caled.

Roedd disgwyl o hyd am gyhoeddiad swyddogol am y fformiwla ariannu. Roedd y CC yn ystyried mai gwan iawn oedd unrhyw obaith o newid yn 2018/19 o gofio nad oedd y Swyddfa Gartref wedi dechrau ymgynghori ar y mater hwn eto.

**Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor gofnodion y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd 12 Mehefin 2017**

**A16 2017/18 Unrhyw fater arall**

Mewn cyfarfod gan y Bwrdd Plismona, yn sgil ymgynghori â'r Aelodau, cymeradwywyd estyn contract y TIAA am ddeuddeg mis arall gan y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

**Penderfyniad: Nodi'n ffurfiol y penderfyniad a wnaed yn y Bwrdd Plismona i gymeradwyo estyn contract TIAA am ddeuddeg mis arall.**

Roedd proses recriwtio ar gyfer Aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio i'w dechrau cyn bo hir. Cafwyd cynnig i estyn tymor dau o'r Aelodau presennol yn eu swyddi am un cyfarfod arall. Roedd hyn er mwyn gadael digon o amser i gwblhau'r broses a galluogi unrhyw Aelodau newydd i gysgodi cyfarfod. Cadarnhaodd y PS y penderfyniad i ystyried Pwyllgor a fyddai'n cynnwys hyd at bum aelod.

Hysbyswyd yr Aelodau gan y PSC am ddiwrnod datblygu dan nawdd CIPFA ar gyfer Pwyllgorau Archwilio Heddluoedd i'w gynnal yn Llundain a Chaerefrog a gwahoddodd ddatganiadau o ddiddordeb.

Gofynnodd MM a fyddai'n bosibl naill ai i CIPFA gynnal diwrnod tebyg yng Nghymru neu gynnal diwrnod hyfforddi mewnol a chynnwys pedwar Heddlu Cymru. Roedd rhai Aelodau wedi mynychu digwyddiadau hyfforddi CIPFA o'r blaen a chytunwyd i gael gwybod beth oedd cynnwys y digwyddiadau hyn er mwyn penderfynu ar eu gwerth.

**Gweithredu: Y PSC i anfon manylion diwrnod datblygu CIPFA at yr Aelodau i'w hystyried.**

**Gweithredu: I gael gwybod beth oedd cynnwys digwyddiadau hyfforddi blaenorol CIPFA.**

Tynnodd y PSC sylw at ymgynghoriad ar-lein gan SAC ar 'Symleiddio Trefn Ffioedd Gymhleth'. Nodwyd y dyddiad cau i unrhyw Aelodau oedd â diddordeb mewn cyfranogi.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.25yp**

**Dyddiad y cyfarfod nesaf: 19 Medi 2017**

| PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 25 GORFFENNAF 2017 | | |
|---|---|---|
| Rhif y Penderfyniad | Crynodeb o'r Penderfyniad | I'w symud yn ei flaen gan |
| **D1 2017/18** | **Bod MM yn arwain ar faterion ACEM ac** | **Yr Heddlu** |

| | | |
|---|---|---|
| | **yn cael ei wahodd i fynychu cyfarfodydd priodol.** | |
| **D1 2017/18** | **Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 29 Mawrth 2017 fel cofnod cywir.** | **Cwblhawyd** |
| **D2 2017/18** | **Cymeradwyo'r Cylch Gwaith ar gyfer y Cydbwyllgor Archwilio a'i adolygu'n flynyddol o hyn allan.** | **Yr Aelodau** |
| **D3 2017/18** | **Cymeradwywyd yr Adroddiad Blynyddol 2016/17 i'w gyhoeddi.** | **Cwblhawyd** |
| **D4 2017/18** | **Cymeradwywyd Llythyr Sylwadau drafft y Comisiynydd Heddlu a Throseddu i'w lofnodi gan y llofnodwyr priodol.** | **Cwblhawyd** |
| **D4 2017/18** | **Cymeradwywyd Llythyr Sylwadau drafft y Prif Gwnstabl i'w lofnodi gan y llofnodwyr priodol.** | **Cwblhawyd** |
| **D5 2017/18** | **Cytunodd yr Aelodau ag ymateb y rheolwyr o ran yr ymholiadau archwilio i'r rheini y mae llywodraethu a rheoli wedi'u hymddiried iddynt.** | **Cwblhawyd** |
| **D6 2017/18** | **Nodi Adroddiad y Datganiadau Ariannol a'r Llythyr Rheoli.** | **Cwblhawyd** |
| **D7 2017/18** | **Cymeradwyo Datganiad Cyfrifon (Cyfrifon Grŵp) 2016/17 drafft i'w lofnodi.** | **Cwblhawyd** |
| **D7 2017/18** | **Cymeradwyo Datganiad Cyfrifon (Endid Unigol) drafft y Prif Gwnstabl ar gyfer 2016/17 i'w lofnodi.** | **Cwblhawyd** |
| **D8 2017/18** | **Nodi adroddiad Archwilio Mewnol 2016/17.** | **Cwblhawyd** |
| **D9 2017/18** | **Nodi'r adroddiad a chyfeirio ato ar adeg briodol wrth adolygu'r rhaglen Archwilio Mewnol ar gyfer y flwyddyn ddilynol.** | **Yr Aelodau** |
| **D10 2017/18** | **Bod yr Aelodau'n cytuno ar newid ffurfiol yn y Cynllun Blynyddol i gynnwys adolygiad o gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.** | **Cwblhawyd** |
| **D11 2017/18** | **Darparu adroddiad cynnydd i'r Aelodau am yr ôl-groniad fetio mewn cyfarfod yn y dyfodol.** | **Yr Heddlu** |
| **D11 2017/18** | **Nodi adolygiadau'r Archwilwyr Mewnol.** | **Cwblhawyd** |
| **D12 2017/18** | **Nodi Cofrestr Risg yr Heddlu.** | **Cwblhawyd** |
| **D12** | **Nodi Cofrestr Risg Gorfforaethol SCHTh.** | **Cwblhawyd** |

| | | |
|---|---|---|
| **2017/18** | | |
| **D14 2017/18** | **Nodi'r adroddiad am ystadegau talu.** | **Cwblhawyd** |
| **D15 2017/18** | **Nododd y Pwyllgor gofnodion y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd 12 Mehefin 2017.** | **Cwblhawyd** |
| **D16 2017/18** | **Nodi'n ffurfiol y penderfyniad a wnaed yn y Bwrdd Plismona i gymeradwyo estyn contract TIAA am ddeuddeg mis arall.** | **Cwblhawyd** |

| CRYNODEB GWEITHREDU O GYFARFOD 25 GORFFENNAF 2017 | | |
|---|---|---|
| Rhif Gweithredu | Crynodeb Gweithredu | I'w symud yn ei flaen gan |
| **A1 2017/18** | **Y PSC i anfon briffiau cleientiaid TIAA yn electronig at yr Aelodau.** | **PSC** |
| **A11 2017/18** | **Anfon copi o'r strwythur llywodraethu newydd at yr Aelodau pan fydd ar gael.** | **CC** |
| **A11 2017/18** | **Cynnwys trafodaeth am drefniadau cydweithredu ar agenda un o gyfarfodydd Grŵp Plismona Cymru Gyfan yn y dyfodol.** | **PS** |
| **A13 2017/18** | **Adroddiad am y broses graffu i'w ddarparu i'r Aelodau ym mhen chwe mis.** | **PS** |
| **A13 2017/18** | **Nodyn atgoffa i'w anfon at yr Aelodau er mwyn pennu maes risg i'w graffu arno yn y cyfarfod nesaf.** | **PS** |
| **A16 2017/18** | **Y PSC i anfon manylion diwrnod datblygu CIPFA at yr Aelodau i'w hystyried.** | **PSC** |
| **A16 2017/18** | **I gael gwybod beth oedd cynnwys digwyddiadau hyfforddi blaenorol CIPFA.** | **PSC** |